

Hysbysiad Preifatrwydd – Profi Orlhain Diogelu GIG Cymru

Diben yr hysbysiad hwn

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut mae'ch gwybodaeth bersonol a gasglwyd yn rhan y Gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau o raglen Profi Orlhain Diogelu GIG Cymru yn cael ei phrosesu a'i defnyddio i helpu i reoli a lleihau lledaeniad Coronafeirws (COVID-19).

Darperir y Gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau gan y sefydliadau canlynol:

- Y 22 Awdurdod Lleol
- Y 7 Bwrdd Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre (trwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – NWIS)
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Mae'r holl sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd fel 'Rheolyddion Data ar y Cyd', sy'n golygu eu bod yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am y data a brosesir ganddynt.

Yn Sir Gaerfyrddin, Delta Wellbeing Ltd, sef 'Prosesydd Data' sy'n gwneud y gwaith Orlhain Cysylltiadau. Cwmni Masnachu'r Awdurdod Lleol yw Delta sy'n eiddo'n llwyr i Gyngor Sir Caerfyrddin, a sefydlwyd ym mis Mehefin 2018 ac sy'n gweithredu gwasanaeth Llinell Ofal y Cyngor. Mae ganddo drinwyr galwadau profiadol, sy'n lleihau'r effaith ar staff y Cyngor y mae angen eu harbenigedd i gyflawni dyletswyddau pwysig eraill.

Yn dibynnu ar ble rydych yn byw a'r cysylltiad rydych wedi ei gael trwy'r Gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau, gall eich data gael eu prosesu gan unrhyw un o'r sefydliadau a restrir uchod.

Beth yw olrhain cysylltiadau a pham ydych chi'n cadw fy manylion?

Mae olrhain cysylltiadau yn rhan sylfaenol o'r Rhaglen Profi Orlhain Diogelu, a'i nod yw lleihau nifer yr achosion eilaidd o COVID-19 a chanlyniadau'r haint mewn achosion dilynol. Bydd olrhain cysylltiadau yn ceisio cyflawni ei nod trwy:

- Nodi cysylltiadau a allai fod wedi dod i gysylltiad â pherson â COVID-19 ar yr adeg roedd yr achos yn heintus a
- Rhoi gwybod iddynt fod rhaid iddynt hunanynysu i atal y feirws rhag lledaenu.

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'n rhaid i ni gadw a phrosesu gwybodaeth bersonol benodol amdanoch.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth gyffredinol am olrhain cysylltiadau yma <https://llyw.cymru/olrhain-cysylltiadau-eich-cwestiynau>

Pa wybodaeth bersonol amdanaf ydych chi'n ei chadw a'i phrosesu?

Rydym yn cadw ac yn prosesu'r wybodaeth ganlynol amdanoch os ydych wedi profi'n bositif neu wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:

- Enw llawn
- Cyfeiriad llawn a manylion cyswllt megis eich rhif ffôn a'ch cyfeiriad e-bost.
- Dyddiad geni
- Rhyw
- Rhif GIG
- Manylion y prawf am COVID-19, gwybodaeth fel dyddiad y prawf, dyddiad y canlyniad, canlyniad (positif)
- Manylion am symptomau COVID-19
- Gwybodaeth ynghylch p'un a ydych mewn cartref gofal neu ysbyty.
- Gwybodaeth ynghylch a ydych chi'n Glaf a Warchodir a'r rheswm pam.
- Data ar anabledd ac ethnigrwydd
- Manylion am eich aelwyd a'ch trefniadau byw.
- Gwybodaeth am y bobl rydych wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Gall hyn gynnwys aelodau'r aelwyd, teulu, ffrindiau a chydweithwyr ac ati.
- Gwybodaeth am y lleoedd rydych chi wedi ymweld â nhw.
- Os buoch mewn cysylltiad â chydweithwyr, efallai y bydd angen gwybodaeth arnom hefyd am eich man gwaith a'ch cyflogaeth.
- Unrhyw wybodaeth arall a allai fod yn berthnasol i olrhain cysylltiadau yr hoffech ei rhannu â ni.
- Cofnod o unrhyw gyngor a gwybodaeth rydym wedi'u rhoi i chi.

Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn, gallwch roi caniatâd i ni siarad â rhywun arall ar eich rhan.

Os ydych chi o dan 16 oed, byddwn yn siarad â'ch rhieni/gwarcheidwaid am eich symptomau.

O ble mae'r Gwasanaeth Orlhain Cyswllt yn derbyn fy ngwybodaeth?

Os gwnaethoch chi brofi'n bositif am COVID-19:

- Bydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i Dîm Orlhain Cysylltiadau rhanbarthol yr Awdurdod Lleol gan eich Bwrdd Iechyd Lleol.
- Gellid derbyn eich Gwybodaeth hefyd gan unrhyw Fwrdd Iechyd Cyhoeddus arall pe byddech chi'n cael eich profi mewn canolfan brofi y tu allan i Gymru.
- Bydd y Tîm Orlhain hefyd yn casglu rhagor o wybodaeth yn uniongyrchol gennych chi pan fyddant yn siarad â chi a'ch bod chi'n cytuno i ateb cwestiynau gan y Swyddog Orlhain Cysylltiadau.

Os cawsoch eich adnabod fel rhywun sydd wedi bod mewn cysylltiad â pherson sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:

- Bydd eich enw a'ch manylion cyswllt wedi cael eu darparu i ni gan yr unigolyn sydd wedi profi'n bositif (nodwch am resymau cyfrinachedd na fyddwn yn gallu dweud wrthy ch pwy oedd y person hwnnw).

- Os yw'r person a brofodd yn bositif wedi ymweld â man cyhoeddus lle gwnaethoch hefyd ymweld ag ef a chofrestru'ch manylion, byddwn yn cysylltu â'r lleoliad hwnnw a byddant yn darparu eich manylion i ni.
- Bydd y Tîm Orlhain hefyd yn casglu rhagor o wybodaeth yn uniongyrchol gennych chi pan fyddant yn siarad â chi a phan fyddwch yn cytuno i ateb cwestiynau gan y Cynghorydd Orlhain Cysylltiadau.

Caniatâd i weithredu ar eich rhan:

Os ydych chi'n 16 oed neu'n hŷn, gallwch chi roi caniatâd i ni siarad â rhywun arall ar eich rhan os yw'n well gennych chi.

Os ydych chi o dan 16 oed, byddwn yn siarad â'ch rhieni/gwarcheidwaid am eich symptomau.

Sut mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio fel rhan o'r Gwasanaeth Orlhain Cysylltiadau?

Os gwnaethoch chi brofi'n bositif am COVID-19:

Bydd Swyddog Orlhain Cysylltiadau yn cysylltu â chi i roi cyngor a chefnogaeth, byddant yn gofyn am eich symptomau ac yn ceisio sefydlu gyda phwy rydych chi wedi bod mewn cysylltiad.

Os ydych chi wedi bod mewn cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael prawf positif am COVID-19:

Os ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif, bydd Cynghorydd yn cysylltu â chi ac os cytunwch i ateb y cwestiynau, bydd yn rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud nesaf, er enghraifft am ba hyd y mae angen i chi ynysu.

Byddwch hefyd yn derbyn galwadau llesiant dyddiol i weld sut rydych chi ac, os byddwch chi'n datblygu symptomau, fe'ch cynghorir i archebu prawf a sut i wneud hyn. Gallwch ddewis derbyn ac ymateb i'r wybodaeth hon trwy neges destun os yw'n well gennych.

Os na fyddwch yn ymgysylltu â'r tîm ac nad ydych chi am ateb unrhyw gwestiynau, mae'n ofynnol i ni anfon llythyr atoch yn egluro pa gamau y mae'n rhaid i chi eu cymryd.

Gallwch weld sut mae pob sefydliad yn defnyddio'ch data yn y tabl yn Atodiad A.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio fy ngwybodaeth?

Dyma'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol at ddibenion olrhain cysylltiadau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data:

- Erthygl 6(1)(e) – Tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolydd

Ar gyfer data mwy sensitif megis gwybodaeth iechyd (a elwir yn ddata categori arbennig) mae angen sail gyfreithiol ychwanegol, sef:

- Erthygl 9(2)(i) – Rhaid i brosesu fod yn angenrheidiol am resymau lles y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd (fel amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd ac o gynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol)
- Erthygl 9(2)(h) – Darparu meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, gofal neu driniaeth iechyd neu gymdeithasol, neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol

Cefnogir hyn gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cymru) 2010
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Pwerau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010
- Deddf y Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002

A oes gennych unrhyw ddibenion eraill ar gyfer prosesu fy data?

Ymchwil ac Adrodd –

Efallai y byddwn ni, y GIG, Iechyd Cyhoedd Cymru a Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio dadansoddiad o'r wybodaeth uchod i gynhyrchu adroddiadau a fydd yn;

- Helpu i ddeall COVID-19 a'r risgiau i iechyd y cyhoedd, tueddiadau mewn COVID-19 a risgiau o'r fath a rheoli ac atal lledaeniad COVID-19 a risgiau o'r fath
- Nodi a deall gwybodaeth am gleifion neu gleifion posibl sydd â COVID-19 neu sydd mewn perygl o'i gael
- Darparu gwasanaethau i gleifion, clinigwyr a gwasanaethau iechyd i'n dinasyddion
- Ymchwilio a chynllunio i COVID-19 (gan gynnwys y posibilrwydd o gael eich gwahodd i fod yn rhan o dreialon clinigol)
- Monitro cynnydd a datblygiad COVID-19.

A yw fy ngwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall?

Nid yw eich data yn cael eu rhannu ag unrhyw sefydliadau heblaw'r rhai a restrir yn y ddogfen hon.

Am ba hyd y bydd fy ngwybodaeth yn cael ei chadw?

Byddwn yn cadw eich data personol cyhyd ag y bo angen ac at y diben yr ydym yn eu prosesu.

Ar gyfer unigolyn sydd wedi profi'n positif am COVID-19 bydd hyn am 7 mlynedd.

Ar gyfer unigolyn sydd wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n positif, ond nad oes ganddo unrhyw symptomau ei hun, byddwn yn cadw'ch cofnodion am 5 mlynedd.

*

Pa hawliau sydd gennyf mewn perthynas â'r prosesu hwn o fy ngwybodaeth?

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn darparu rhai hawliau i chi o ran eich data eich hun.

Cliciwch [yma](#) i gael mwy o wybodaeth yn ymwneud â'ch hawliau unigol.

I arfer eich Hawliau i Gyfyngu a Dileu, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data yn eich bwrdd iechyd lleol. Mae dolenni gwefan y bwrdd iechyd lleol i'w gweld yn yr adran Cysylltu â Ni isod.

I arfer unrhyw hawliau eraill, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data eich awdurdod lleol. Mae dolenni gwefan awdurdodau lleol i'w gweld yn yr adran cysylltu â ni isod.

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os hoffech wybod rhagor am sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol ar gyfer olrhain cysylltiadau, cysylltwch â ni ar:

Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer eich Bwrdd Iechyd Lleol a'ch Awdurdodau Lleol trwy fynd i:

<https://www.wales.nhs.uk/ourservices/directory/LocalHealthBoards>

<https://www.wlga.wales/welsh-local-authority-links>

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwynion ynghylch y modd yr ymdriniwyd â'ch data personol, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn eich Awdurdod Lleol neu eich Bwrdd Iechyd Lleol yn y lle cyntaf. Gallwch ddod o hyd i'w manylion ar y gwefannau sydd wedi'u cynnwys yn y manylion uchod.

Fodd bynnag, os ydych yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth trwy ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill,
Ffordd Churchill,

Caerdydd
 CF10 2HH
 Ffôn 0330 414 6421
 E-bost: wales@ico.org.uk

Pwy sy'n darparu olrhain cysylltiadau

Atodiad A

Tîm Olrhain Cysylltiadau Rhanbarthol – Awdurdod Lleol	Bwrdd Iechyd Lleol	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
<p>Bydd y Tîm Olrhain Cysylltiadau rhanbarthol yn cysylltu ag unigolion sydd wedi derbyn prawf positif i drafod eu symptomau a sefydlu gyda phwy y buont mewn cysylltiad (y cyfeirir atynt fel 'cysylltiadau') a phryd.</p> <p>Bydd y tîm hefyd yn cysylltu'n ddyddiol â'r cysylltiadau i weld a ydyn nhw'n profi unrhyw symptomau ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar hunanynysu.</p> <p>Mae pob galwad a wneir gan y timau Olrhain Cysylltiadau yn cael ei chofnodi at ddibenion monitro/hyfforddi ac i gynorthwyo gyda datrys unrhyw gwynion y gellir eu derbyn.</p>	<p>Ar gyfer preswylwyr sydd wedi:</p> <ul style="list-style-type: none"> Bod yn yr ysbyty am fwy na thri diwrnod, cewch eich dosbarthu fel 'achos COVID-19 a gafwyd yn yr ysbyty' neu Eich rhyddhau o'r ysbyty, ond yn fuan ar ôl eich rhyddhau, cewch eich profi'n positif am COVID-19 <p>Bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i dîm Atal a Rheoli Heintiau (IP&C) yr ysbyty a fydd yn cysylltu/cwrdd â chi i gynnal y broses olrhain cysylltiadau.</p>	<p>Mae NWIS yn darparu'r system ddiogel lle mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan y timau Olrhain Cysylltiadau rhanbarthol yn cael ei storio'n ddiogel.</p>	<p>Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cefnogaeth, cyngor ac arweinyddiaeth arbenigol ar lefel genedlaethol i GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol</p>